

Rebecca Evans AC

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

12 Ionawr 2017

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) – cais am wybodaeth yn dilyn presenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Ionawr 2017

Annwyl Weinidog,

Diolch am y dystiolaeth lafar a ddarparwyd gennych yn y sesiwn ar 11 Ionawr. Yn ychwanegol at eich dystiolaeth, clywodd y Pwyllgor gan Dr Olwen Williams, a oedd yn cynrychioli Coleg Brenhinol y Meddygon. Barn y sefydliad hwnnw yw y dylai'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau oedran ar gyfer tyllau mewn rhannau personol o'r corff gael eu diwygio er mwyn iddynt fod yn gymwys i blant a phobl ifanc hyd at 18 mlwydd oed yn hytrach na hyd at 16 mlwydd oed.

Mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd, yn enwedig o ran dystiolaeth Dr Williams am fregusrwydd y grŵp oedran hwn, a'u gallu i wneud penderfyniadau gwybodus am dyllau mewn rhannau personol o'u cyrff. Roedd ei thystiolaeth, yn seiliedig ar enghreifftiau yng Nghymru, yn awgrymu pryderon hefyd yn ymwneud â chysylltiadau â cham-fanteisio rhywiol posibl ar blant, a nododd y gall triniaethau o'r fath arwain at newidiadau corfforol parhaol.

Felly byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddarparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol i'r hyn a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIPA) yn y Bil. Rydym yn awyddus i ddeall eich barn ar sut y mae erthyglau 1, 3, 4, 6, 24, 34 a 36 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael effaith o ran pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed, yng ngoleuni darpariaethau'r Bil, sy'n gosod y cyfyngiad oed yn 16 yn hytrach na 18 mlwydd oed.



Nodwn hefyd fod yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn nodi bod amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y triniaethau hyn yn bwysig, oherwydd efallai nad oes ganddynt wybodaeth neu ddealltwriaeth ddigonol am ganlyniadau ac effeithiau hirdymor y triniaethau, a byddem yn croesawu eich barn ar sut y mae hyn yn gwahaniaethu rhwng person ifanc 15 mlwydd oed a pherson ifanc 16 mlwydd oed.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd yn nodi bod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar Iechyd y Cyhoedd yn 2014 yn gofyn cwestiynau penodol ar y mater hwn, ac y daeth 228 o ymatebion i law, gan gynnwys 65 ymateb gan bobl ifanc. Nodwn, o ran y cwestiynau penodol am dyllu rhannau personol o'r corff, teimlai 77 y cant o'r ymatebwyr na ddylai pobl ifanc gael caniatâd i roi tyllau cosmetig mewn rhannau personol o'r corff; roedd 89 y cant o fusnesau tyllu yn gryf o blaid cyfyngiad oedran; ac roedd 62 y cant o ymatebion gan bobl ifanc yn dweud na ddylai pobl ifanc gael caniatâd i roi tyllau cosmetig mewn rhannau personol o'u cyrff.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant y Bil yn nodi bod cwestiwn wedi'i ofyn hefyd am yr isafswm oedran y dylai person ifanc gael yr hawl i gael triniaeth tyllau cosmetig mewn rhannau personol o'r corff. Awgrymodd 140 (61 y cant) o ymatebwyr y dylai fod yn 18 mlwydd oed. Awgrymodd 47 (21 y cant) o ymatebwyr y dylai fod yn 16 mlwydd oed. Awgrymodd yr ymatebwyr a oedd yn weddill oeddrannau eraill, neu nid oeddent wedi ateb y cwestiwn.

Yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad pellach o'ch penderfyniad y dylai'r cyfyngiad oedran ar dyllu rhannau personol o'r corff yn y Bil fod yn 16 yn hytrach nag yn 18 mlwydd oed.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gomisiynydd Plant Cymru yn gofyn am sylwadau pellach ganddi hi am y mater.

Yn ogystal â'r uchod, yn ystod y cyfarfod cytunasoch hefyd i ddarparu'r canlynol:

- nodyn yn manylu ar allu ymarferydd i wrthod rhoi tyllau yn rhannau personol y corff i berson o dan 18 mlwydd oed pan fydd y cyfyngiadau



cyfreithiol yn berthnasol i bobl ifanc o dan 16 mlwydd oed yn unig, a'r canlyniadau, cyfreithiol neu fel arall, posibl i ymarferydd o'r fath;

- rhagor o fanylion am y troseddau perthnasol a amlinellir yn adran 63(3) o'r Bil, a'r diffyg sôn am droseddau rhywiol ar hyn o bryd;
- copi o'ch llythyr at BMA Cymru, a anfonwyd ym mis Rhagfyr 2016, yn mynd i'r afael â'u pryderon am wasanaethau fferyllol ac Aseidiadau o Anghenion Fferyllol.

O ystyried yr amserlen ar gyfer ein gwaith craffu ar y Bil, byddem yn ddiolchgar i gael ymateb erbyn 25 Ionawr.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

